## Asesiad Effaith Cydraddoldeb Cod Ymarfer Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol

Gan: Alix Charnley
Dyddiad: 16/12/2025

| **Nod y Project** |
|---|
| *Beth mae'r project yn gobeithio ei gyflawni? (Nodwch y canlyniadau a'r manteision ariannol ac/neu anariannol).* |
| Nod y Cod Ymarfer hwn yw sicrhau bod Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaoedd ym Mhrifysgol Bangor yn cael eu darparu'n gyson, eu bod o ansawdd uchel, ac wedi'u hymgorffori'n strategol ar draws y sefydliad i gefnogi cyflogadwyedd, rheoli gyrfaoedd a datblygiad gydol oes myfyrwyr a graddedigion. Mae'n diffinio'r egwyddorion, y cyfrifoldebau, y partneriaethau a'r trefniadau sicrhau ansawdd sy'n ofynnol i gysoni darpariaeth Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol â blaenoriaethau sefydliadol, anghenion y farchnad lafur, a datblygiad economaidd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. |

| | |
|---|---|
| **Teitl y Project** | Cod Ymarfer Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol |
| **Arweinydd y Project** | Pennaeth Llwyddiant Myfyrwyr |
| **Tîm y Project** | Llwyddiant Myfyrwyr: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, Cyfarwyddwr Bywyd Myfyrwyr |

| **Beth yw effaith y project, y polisi neu'r ymarfer ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig?** |
|---|
| *O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, rhaid i'r Brifysgol roi 'sylw dyledus' i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno. Y nodweddion gwarchodedig a nodir yn y ddyletswydd cydraddoldeb yw:* ***oedran, anabledd, ailbennu rhywedd (Traws), beichiogrwydd a mamolaeth, hil (ethnigrwydd), crefydd neu gred, rhyw (rhywedd)*** *a* ***chyfeiriadedd rhywiol*** *ac mae'r ddyletswydd hefyd yn berthnasol i ofalwyr. Mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Brifysgol ddangos ei bod wedi rhoi 'sylw dyledus' i nodau'r ddyletswydd cydraddoldeb yn ei phrosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau.* |

| Gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus | Tystiolaeth | Manylion yr Effaith (Cadarnhaol/Niwtral/Negyddol) |
|---|---|---|
| **Dileu Gwahaniaethu**<br><br>• *A yw'r project yn debygol o drin rhywun yn llai ffafriol neu eu rhoi o dan anfantais oherwydd eu nodweddion gwarchodedig?* | Mae'r Cod yn ymrwymo i fynediad cyfartal at ddarpariaeth ddiduedd a chyfrinachol; hygyrchedd yn unol â rheoliadau'r DU a'r sefydliad; darpariaeth ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg); a gweithio ar y cyd sy'n cydnabod anghenion a dyheadau amrywiol | Mae darpariaeth Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol ar gael i'n holl fyfyrwyr a graddedigion am hyd at dair blynedd ar ôl dyddiad gorffen eu cwrs, gydag addasiadau rhesymol a chymorth |

| | | |
|---|---|---|
| • *A allai'r project, y polisi neu'r ymarfer arwain at wahanol ganlyniadau i wahanol grwpiau gwarchodedig?* | myfyrwyr a graddedigion. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r tîm Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a chefnogi ehangu mynediad a chyfranogiad. | penodol lle bo'n briodol. Mae'r Cod wedi'i gynllunio i liniaru anfantais ac ni fyddai unrhyw fyfyriwr na chyn fyfyriwr yn cael ei drin yn llai ffafriol o ganlyniad i weithredu'r Cod. |
| **Hyrwyddo Cyfle Cyfartal**<br><br>• *A fydd anghenion y staff a'r myfyrwyr hynny sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig yn cael eu bodloni?*<br>• *A allai'r project, y polisi neu'r ymarfer arwain at fwy o ymwneud/cyfranogiad gan grwpiau gwarchodedig?*<br>• *A oes unrhyw gyfleoedd i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer grwpiau gwarchodedig penodol a/neu rhwng grwpiau gwarchodedig?* | Mae cydweithio ar draws y brifysgol wedi'i gynllunio i sicrhau y gall staff a myfyrwyr â gwahanol nodweddion gwarchodedig gael cefnogaeth briodol, ymatebol a chynhwysol. Mae ymgorffori darpariaeth yn y cwricwlwm, gweithgareddau allgyrsiol, a phartneriaethau ag ysgolion academaidd a rhanddeiliaid allanol yn lleihau risg a rhwystrau strwythurol i gyfranogiad a chefnogaeth gyflogadwyedd benodol yn debygol o gynyddu ymgysylltiad gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur. | Gellir defnyddio data fel Parodrwydd am Yrfa, CyswlltGyrfa, cofrestru, Deilliannau Addysgol Hydredol a Chanlyniadau Graddedigion i ddadansoddi bylchau mewn ymgysylltiad a dilyniant, hyrwyddo llwybrau gyrfa cynhwysol, a gwella cydraddoldeb i bob myfyriwr a chyn-fyfyriwr. |
| **Hybu Perthynas Dda**<br><br>• *A oes camau wedi eu cymryd i fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth?*<br>• *Sut mae unigolion, grwpiau neu gyrff perthnasol wedi eu cynnwys/wedi cael cyfle i roi eu barn wrth ddatblygu ac asesu effaith y project?* | Mae'r cod yn cyd-fynd â Strategaeth 2030 Prifysgol Bangor ac mae'n unol â gofynion mewnol a chenedlaethol. Mae wedi'i lunio gan safonau'r sector megis safonau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac AGCAS, polisïau, a Chodau Ymarfer a Moeseg cysylltiedig.<br><br>Mae ymgynghori ag ysgolion academaidd, penaethiaid gwasanaethau proffesiynol a rhanddeiliaid allanol yn digwydd yn flynyddol. Adolygir gwasanaethau Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol yn ystod archwiliadau sefydliadol, ac archwiliadau mewnol ar yr ysgolion academaidd a'r adrannau gwasanaeth. | Mae'n hyrwyddo cydweithio rhwng yr adran Llwyddiant Myfyrwyr: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, ysgolion academaidd, Undeb y Myfyrwyr, cyflogwyr ac asiantaethau allanol, gan helpu i herio tuedd a rhagfarn drwy safonau ar y cyd, arfer proffesiynol, a hyrwyddo llwybrau gyrfa cynhwysol ac amrywiol, gwybodaeth am y farchnad lafur a safbwyntiau cadarnhaol gan gyflogwyr. |

| | |
|---|---|
| **Ar sail yr asesiad uchod, pa gamau gweithredu sydd eu hangen?** | |
| **Does dim angen newid mawr** | Does dim angen newid mawr |

| | |
|---|---|
| *Nid yw'r asesiad wedi canfod unrhyw botensial i wahaniaethu nac effaith andwyol a chymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.* | |
| **Gwneud addasiadau er mwyn diddymu'r rhwystrau neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well.**<br><br>*Nodi'r addasiadau a wneir i ddiddymu'r rhwystrau sydd wedi eu hadnabod yn yr asesiad neu i hyrwyddo cydraddoldeb yn well.* | Amherthnasol |
| **Parhau er ei bod yn bosib y bydd effeithiau negyddol neu y caiff cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb eu colli.**<br><br>*Nodi'r camau a gaiff eu cymryd i leihau neu i liniaru'r effeithiau andwyol.* | Amherthnasol |
| **Aros ac ailfeddwl**<br><br>*Mae'r asesiad yn dangos gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosib. Nodi'r camau a gymerir i atal ac/neu ailfeddwl am y project.* | Amherthnasol |

| **Sut caiff effaith wirioneddol y project, y polisi neu'r ymarfer ei monitro unwaith y caiff ei weithredu?** |
|---|
| Caiff y cod ymarfer hwn ei fonitro'n flynyddol gan y Tîm Llwyddiant Myfyrwyr: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd a'i adolygu'n ffurfiol yn unol ag amserlen y brifysgol ar gyfer adolygu polisïau, sef bob tair blynedd. |

| **Cyhoeddi** |
|---|
| Cyhoeddir yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb hwn yn ddwyieithog ar dudalennau gwe Prifysgol Bangor ac mae ar gael mewn print ar gais. |